

Cais Cronfa Fach Casnewydd

Mae grantiau o hyd at £10,000 ar gael ar gyfer prosiectau cymunedol yng Nghasnewydd - os ydych yn dymuno bidio am swm sy'n fwy na £4,000, dylech ddod o hyd i'r cais am gronfa fawr.

Mae'r ffurflen gais hon ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg ar ein tudalen Facebook:

Cyfle Ariannu Cyllidebu Cyfranogol i Gasnewydd

Digwyddiad i'w gynnal ar-lein ddydd Sadwrn 27 Mawrth 2021, 11am - 1pm



Cyfle Ariannu Cyllidebu Cyfranogol i Gasnewydd

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi sicrhau bod £100,000 ar gael ar gyfer Cyllidebu Cyfranogol (CC) ar gyfer lles yng Nghasnewydd er mwyn cefnogi cymunedau lleol i wella ar ôl effaith COVID-19. Mae'r arian hwn yn dod o Gronfa Blynnyddoedd Cynnar ac Atal Llywodraeth Cymru.

Mae CC yn rhoi rheolaeth i aelodau'r gymuned dros ddyrannu arian i brosiectau sydd o fudd i'r gymuned. Mae CC yn broses ddemocrataidd lle y gofynnir i ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf a restrir isod, wneud fideo fer am eu prosiect a bydd trigolion Casnewydd yn pleidleisio dros y prosiectau y maent yn credu y bydd o'r budd mwyaf i'r gymuned.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y broses CC, [cliciwch yma](#) i fynd i'n dogfen Cwestiynau Cyffredin.

Gall unrhyw grŵp cymunedol, preswlydd neu sefydliad dielw fidio am gyfran o'r £100,000. Mae angen i'ch cais fod o fudd i o leiaf un o'r wyth grŵp a mynd i'r afael ag un o'r pum thema a restrir isod.

8 Grŵp:

- BAME – Cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Pobl Anabl a Gofalwyr
- Pob Hŷn a Gofalwyr
- Plant a Phobl Ifanc (10-17 oed)
- Pobl Ifanc 18-25
- Pobl LHDTC+
- Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Mewnfudwyr
- Siaradwyr Cymraeg

5 Thema:

- Cynhwysiant Digidol
- Lles Meddyliol
- Cydlyniant Cymunedol
- Gwybodaeth
- Adfywio

Sut mae'r broses CC yn gweithio?

Bydd y gymuned leol yn penderfynu pwy sy'n cael yr arian yn seiliedig ar y prosiectau maent yn eu hoffi orau, mae'r broses fel a ganlyn:

1. Caiff yr arian ei rannu dros ddau ddigwyddiad.
2. Cafodd £60,000 ei ddyrannu i'r digwyddiad cyntaf **ddydd Sadwrn 27 Mawrth 2021 o 11am tan 1pm**, gall ymgeiswyr gyflwyno cais am hyd at uchafswm o **£4,000** ar gyfer eu prosiect yn y digwyddiad hwn.
3. Cafodd £40,000 ei ddyrannu i'r ail ddigwyddiad **ddydd Sadwrn 27 Mawrth 2021 o 2pm tan 4pm**, gall ymgeiswyr gyflwyno cais am hyd at uchafswm o **£10,000** ar gyfer eu prosiect yn y digwyddiad hwn.
4. Caiff y ffurflen gais hon ei gwirio i sicrhau ei bod yn bodloni'r meini prawf llawn (a nodir isod).

5. Gwahoddir ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf i greu fideo 3 munud am eu cais. Caiff pob ffilm ei dangos mewn trefn ar hap mewn digwyddiad diwrnod penderfynu.
6. Yn y digwyddiad, bydd y gymuned a grwpiau eraill yn bresennol a byddant yn pleidleisio ar y prosiectau sy'n cael eu cyflwyno iddynt.
7. Caiff y pleidleisiau eu cyfrif ar y diwrnod, a rhoddir gwybod i'r prosiectau buddugol cyn bod y digwyddiad yn dod i ben.

Pwy All Wneud Cais am yr arian?

- Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl ifanc 11 oed ac yn hŷn, os ydych chi o dan 18 oed byddwn yn gofyn am ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi gan oedolyn cyfrifol
- Os ydych yn grŵp neu unigolyn nad yw wedi'i gyfansoddi, bydd y grŵp llywio yn gweithio gyda chi i sicrhau y gall partner cymorth addas fod ar gael i chi
- Nid yw sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gymwys i wneud cais
- Gall sefydliadau preifat wneud cais cyn belled â'u bod yn sefydliadau dielw
- Gall unigolion neu grwpiau sy'n gysylltiedig â'r sector cyhoeddus neu sefydliad er elw wneud cais.
- Gall cynigwyr fod o unrhyw le yn ne-ddwyrain Cymru, ond mae'n rhaid i bob gweithgaredd/ymyriad a gwaddol aros yng Nghasnewydd
- Caiff uchafswm o dri chais eu derbyn gan unrhyw ymgeisydd, fodd bynnag, mae'n rhaid i bob cais gynnwys grwpiau targed ar wahân ac mae'n rhaid i'r cyfanswm ar gyfer y tri beidio â bod dros £10,000

Amserlen Digwyddiadau

- Os hoffech chi gael help gyda'ch cais, neu os hoffech chi ddysgu am yr hyn sy'n gweithio mewn CC, byddwn yn cynnal dwy sesiwn gymorth fel a ganlyn:
– **Dydd Llun 8 Mawrth am 6pm**
– **dydd Mercher 10 Mawrth am 11am**
- Rhowch wybod i ni os hoffech fynychu un o'r sesiynau hyn trwy ymateb i info@mutualgain.org. Hefyd caiff manylion eu postio ar ein safle Facebook <https://www.facebook.com/MutualGain>
- Sicrhewch fod y ffurflen gais yn cael ei chyflwyno erbyn **hanner nos ddydd Iau 4 Mawrth 2021**. Ni chaiff cyflwyniadau hwyr eu hystyried.
- Rhoddir gwybod i'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y gronfa ar **11 Mawrth 2021**
- Caiff cymhorthfa ffilm ei chynnal ar-lein drwy Zoom ar **16 Mawrth 2021 am 6pm**, caiff y ddolen ar ei chyfer ei rhannu'n nes at yr amser.
- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffilmiau yw hanner nos **ddydd Llun 22 Mawrth 2021**. Ni chaiff cyflwyniadau hwyr eu hystyried.
- Bydd y digwyddiadau CC yn cael eu cynnal ar-lein **ddydd Sadwrn 27 Mawrth 2021**.

Pleidleisio:


- Bydd pleidleisio yn cael ei wneud gan drigolion Casnewydd ac yn digwydd trwy Zoom
- Bydd angen i bleidleiswyr gofrestru drwy Eventbrite. Bydd y ddolen yn mynd yn fyw ar ein tudalen Facebook a bydd modd ei rhannu ar **29 Mawrth 2021**
- Mae'n rhaid i'r rhai sy'n mynychu bleidleisio ar bob cais yn y digwyddiad, bydd methu gwneud hynny yn golygu nad yw'r ffurflen bleidleisio honno'n dderbyniol
- Yr oedran pleidleisio lleiaf yw 11 oed

Ffurflen Gais:

Gwybodaeth amdanoch eich hun/ eich sefydliad/ eich grŵp


Enw'r Sefydliad/ Person/ Grŵp	
Enw'r Prosiect	
Enw'r Prif Gyswllt	
Swydd yn y Sefydliad (os yn berthnasol)	
Cyfeiriad a Chod Post	
Prif Rif Cyswllt	
E-bost	

1. Ar gyfer beth rydych chi'n ymgeisio am arian?




Defnyddiwch y lle hwn i ddweud wrthym ar gyfer peth yr hoffech ddefnyddio'r arian hwn, er enghraifft, ydych chi eisiau prynu rhywbeth gyda'r arian, neu a ydych chi eisiau cynnig gwasanaeth gydag ef (neu efallai rhywbeth arall?)

2. Pa ddeilliannau/canlyniadau allweddol fydd eich prosiect yn eu cyflawni?



Esboniwch ddyheadau'r prosiect, gan gofio bod rhaid i bob cais fod â pherthynas ag o leiaf un o'r themâu a'r grwpiau.

3. Am faint o arian rydych yn gwneud cais a sut caiff hyn ei ddefnyddio?



Yr uchafswm y gallwch wneud cais amdano yw £4,000. Rydym yn croesawu syniadau bach iawn ond sy'n ddefnyddiol na fydd ond angen ychydig bach o arian arnynt er mwyn dechrau arnynt, yn ogystal â syniad sy'n gofyn am ychydig mwy o arian. Dywedwch wrthym faint o arian sydd ei angen arnoch a sut byddwch yn defnyddio'r arian hwnnw er budd eich dewis thema a grŵp.

3. Pa thema/themâu rydych yn mynd i'r afael â nhw a pha grŵp/grwpia a fydd yn elwa ar eich prosiect? Marciwch ar y matrices ble mae eich prosiect yn ffitio, nodwch nifer o fuddion lle y bo'n briodol.

		Themâu				
		Cynhwysiant Digidol	Lles Meddyliol	Cydlyniant Cymunedol	Gwybodaeth	Adfywio
Grwpiau	BAME – Cymunedau Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig					
	Pobl Anabl a Gofalwyr					
	Pobl Hŷn a Gofalwyr					
	Plant a Phobl Ifanc 10-17 oed					
	Pobl ifanc 18-25					
	Pobl LHDTC+					
	Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Mewnfudwyr					
	Siaradwyr Cymraeg					

Amodau a Datganiad

Rwy'n ardystio drwy hyn bod y wybodaeth yn y ffurflen gais hon yn gywir ac yn cydnabod, os caiff grant ei wneud, y ffurflen gais fydd sail cytundeb rhwymol.

- Mae'n RHAID i gyswllt y cais fod yn gallu bod yn bresennol yn y digwyddiad ar-lein ddydd Sadwrn 27 Mawrth 2021
- Bydd unrhyw gais a wneir yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y'i rhoddir YN UNIG
- Mae'n RHAID dychwelyd unrhyw arian sydd heb ei wario.
- Rwy'n deall y gallai peidio â chydymffurfio â'r gofynion uchod arwain at adennill arian a dalwyd
- Mae'n RHAID i ymgeiswyr fod yn barod i gymryd rhan mewn unrhyw waith hyrwyddo mewn perthynas â'r digwyddiad
- Mae'n RHAID i geisiadau gael eu cwblhau erbyn hanner nos ar 4 Mawrth 2021. (ni chaiff ceisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn eu hadolygu)
- Rydym ni [y grŵp cynllunio cymunedol a MutualGain] wedi ymrwmo i'r egwyddorion sy'n rhan annatod o ofynion GDPR y DU ac yn benodol i gysyniadau preifatrwydd. Ein nod yw sicrhau: tryloywder parthed defnyddio data; bod unrhyw brosesu'n gyfreithlon, yn deg, yn dryloyw ac yn angenrheidiol at ddiben penodol; bod data yn gywir, yn cael ei ddiweddarau a'i ddileu pan na fydd ei angen bellach, bod data yn cael ei gadw'n saff ac yn ddiogel.
- Mae'n rhaid i bob rhaglen/ prosiect/ achos a sefydliad beidio â bod yn gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch gwleidyddol, cael ei ystyried yn dramgwyddus gan y grŵp cynllunio, neu dorri Deddf Cydraddoldeb 2010 - dan yr amgylchiadau hyn, ni chaiff y prosiect ei ystyried.

Enw: _____

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Swydd: _____

Dychwelwch y ffurflen hon erbyn **dydd lau 4 Mawrth 2020** drwy e-bost neu bost:

E-bost: ourvoiceourchoiceourport@newport.gov.uk

Post: Cyngor Dinas Casnewydd

Canolfan Ddinesig

Godfrey Road

Casnewydd

De Cymru

NP20 4UR

Ni chaiff ceisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn eu hystyried.

BYDD PROSES O ADOLYGU'R CEISIADAU ER MWYN SICRHAU EU BOD YN

BODLONI'R MEINI PRAWF UCHOD A'U BOD YN GYFREITHLON, OND NI CHAIFF
UNRHYW FARN AR Y SYNIAD EI GWNEUD GAN Y GRŴP CYNLLUNIO.

CYN DYCHWELYD EICH FFURFLEN GAIS, YDYCH CHI WEDI ...

- ✓ Gwirio'r meini prawf i sicrhau eich bod yn gymwys i wneud cais?
- ✓ Rhoi manylion cyswllt?
- ✓ Rhoi disgrifiad clir o nodau'r prosiect a pham y dylid ei gefnogi?
- ✓ Dweud faint rydych chi eisiau gwneud cais amdano?
- ✓ Llenwi HOLL adrannau'r ffurflen gais?
- ✓ Llofnodi a dyddio'r ffurflen gais?